# CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

## ADRODDIAD I’R PWYLLGOR DEDDFAU

## Rheoliadau Cynhyrchion Cig (Hylendid) (Diwygio) (Cymru) 2000

**Y Cefndir**
Mae’r Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud er mwyn gweithredu Cyfarwyddeb gan Gyngor yr Undeb Ewropeaidd.

Maent yn diwygio darpariaethau Rheoliadau Cynhyrchion Cig (Hylendid) 1994 drwy ychwanegu trydydd dull o baratoi sydd i’w ganiatáu wrth weithgynhyrchu prydau parod wedi’u seilio ar gig mewn safleoedd sydd wedi’u cymeradwyo ar gyfer cynhyrchion cig.

Cafodd rheoliadau i’r un perwyl eu gwneud yn Lloegr ar 18 Mawrth 2000 a daethant i rym ar 31 Mawrth 2000 (O.S. 2000/790).

Mae’r Cyd-bwyllgor ar Offerynnau Statudol wedi cyflwyno adroddiad ar Reoliadau Lloegr am dorri’r "rheol 21 dydd", ond hynny heb dynnu sylw at unrhyw faterion ynghylch ffurf y Rheoliadau.

Gan mai rheoliadau Prydain Fawr, sy’n uniaith Saesneg, sy’n cael eu diwygio, uniaith Saesneg, o reidrwydd, yw’r testun sy’n cael ei fewnosod.

**Rheol Sefydlog 11.5**
Nid oes dim pwyntiau wedi’u nodi fel materion y mae angen i’r Pwyllgor wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 11.5.

Er hynny, mae yna sylwadau cyffredinol y credir y dylid tynnu sylw’r Cynulliad atynt.

**Sylwadau Cyffredinol**

**Y Nodyn Esboniadol**
Mae paragraff 1(b) yn anghywir wrth gyfeirio at Reoliadau Diwygio 1999. Nid yw’r Rheoliadau presennol yn diwygio Rheoliadau 1999. Mae’n ymddangos bod hyn wedi’i gopïo, yn anghywir felly, o Nodyn Esboniadol Rheoliadau Lloegr (O.S 2000/790).

Er hynny, mae'r Rheoliadau presennol yn diwygio Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Deillio o Anifeiliaid (Mewnforio ac Allforio) 1996. Gan hynny, at y Rheoliadau 1996 hyn y dylid cyfeirio ym mharagraff 1(b) o'r Nodyn Esboniadol.

**Y Rhagarweiniad**
O gofio natur fanwl iawn y ddarpariaeth sy'n cael ei diwygio gan y Rheoliadau hyn, mae'n ddigon tebyg y gellid bod wedi enwi llai o bwerau galluogi.

**Rheoliad 2(2)**
Nodwyd dau bwynt mewn perthynas â'r geiriau sy'n cael eu mewnosod, y bydd angen eu cywiro er mwyn cadw'r ystyr gywir ac i sicrhau bod y testun yn unffurf mewn darpariaeth y bwriedir iddi fod yr un fath yng Nghymru a Lloegr. Mae'r pwyntiau hyn fel a ganlyn –

Ym mharagraff (i) dylai "products" fod yn "product".

Ym mharagraff (iii) dylai "timing" fod yn "time".

Mae'n eglur bod y rhain yn faterion y gellid eu cywiro o dan weithdrefn y Memorandwm Cywiriadau yn Rheol Sefydlog 22.12A.

**J H TURNBULL**
**Cynghorydd Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfau**

Ein Cyf: LAD 01-01-

21 Mehefin 2000